



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Plas Garnedd Pentraeth

**Plas Garnedd Pentraeth
Pentraeth
LL75 8YF**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/11/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Plas Garnedd Pentraeth

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	PLAS GARNEDD CARE LIMITED
Lleoedd cofrestredig	23
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	29 Ionawr 2019
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Rhoddir cyfleoedd i'r bobl a chânt eu hannog i fod yn annibynnol ac i ddilyn eu trefn o ddydd i ddydd. Mae croeso i ymwelwyr. Mae'r staff gofal yn gefnogol ac yn galluogi'r bobl i wneud dewisiadau o ran sut i dreulio eu diwrnod. Darperir dewis o brydau bwyd iach a maethlon i'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn ddwyieithog ac mae'r staff gofal yn hyrwyddo ac yn galluogi pobl i siarad yn eu dewis iaith. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd gan aelodau allweddol o'r staff gofal, sy'n sicrhau cysondeb, gan mai'r un aelodau o staff sy'n adolygu ac yn monitro'r gofal.

Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gael i'r staff gofal ond mae angen eu hadolygu a chadarnhau a oes angen eu diweddarau. Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn gynnes ac yn lân. Caiff gwaith cynnal a chadw ei fonitro, ond rhoddir gwybod am achosion o oedi wrth gwblhau tasgau penodol, ac mae hynny'n faes i'w wella. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom y bobl yn gwneud beth roeddent eisiau ei wneud, yn eu hamser eu hunain. Mae'r tîm staff gofal yn brofiadol, yn adnabod y bobl yn dda ac ar gael iddynt, ac yn annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae digon o le yn yr amgylchedd ac mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol yn y gwasanaeth lle gall y bobl dreulio eu hamser.

Mae'r bobl mor iach ac egnïol ag y gallant fod. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da. Mae'r cynlluniau personol yn dangos y caiff anghenion gofal unigol eu hystyried yn llawn, gan gynnwys arferion, dewisiadau a risgiau. Gwelsom dystiolaeth fod apwyntiadau yn cael eu trefnu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn y gwasanaeth a'r tu allan iddo. Gwelsom y staff gofal yn helpu un person i fynd i apwyntiad â gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth. Gwnaethom siarad â'r gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld, a ddywedodd wrthym fod yr unigolyn hwn yn cael y gwasanaeth penodol hwn pan oedd yn byw gartref. Mae'r rheolwyr wedi sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn parhau. Gwelsom fod symudedd yr unigolyn wedi gwella ar ôl ei apwyntiad. Dywedodd wrthym *“That feels much better”*.

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn cael eu diweddarau o fewn amserlen benodol neu pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae'r asesiadau risg unigol yn cynnwys canllawiau clir i'r staff gofal eu dilyn. Mae'r staff gofal yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn poeni am rywun ac maent wedi cael hyfforddiant diogelu a hyfforddiant mewn meysydd eraill, sy'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau iddynt gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r rheolwyr yn adnabod y bobl a'r staff gofal yn dda ac yn goruchwyllo'r gofal a ddarperir ac unrhyw ddigwyddiadau sy'n codi yn effeithiol. Mae'r amgylchedd yn ddiogel.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n hapus yn byw yn y gwasanaeth. Gwelsom y bobl yn eistedd gyda'i gilydd ac yn sgwrsio. Gwelsom y staff gofal yn cefnogi'r bobl, gan roi gofal ag urddas. Gwnaethom siarad ag aelodau o deuluoedd a ffrindiau a oedd yn ymweld a ddywedodd wrthym hefyd fod eu ffrindiau/perthnasau yn hapus ac yn cael gofal da. Dywedodd un ffrind wrthym ei fod yn ymweld unwaith yr wythnos; dywedodd wrthym *“The care is good”*. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am ddewisiadau ac arferion y bobl, gan gynnwys gwybodaeth am ymwelwyr a ble a phryd y maent yn dewis cyfarfod â nhw.

Gofal a Chymorth

Mae'r staff gofal yn darparu gofal o ansawdd da i'r bobl. Caiff asesiadau o anghenion gofal a dewisiadau'r bobl eu cynnal cyn iddynt symud i'r gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolyn. Roedd y rheolwr wrthi'n cynnal asesiad o angen ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae'r cynlluniau personol yn dangos bod manylion cynhwysfawr yn cael eu cofnodi am ddymuniadau ac anghenion y bobl. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o anghenion gofal gan gynnwys symudedd, deiet ac arferion. Mae dewis personol yn thema ganolog wrth gynllunio gofal.

Mae cyfleoedd rheolaidd i'r bobl weld gweithwyr iechyd proffesiynol ac i ddefnyddio gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant parhaus. Gwelsom dystiolaeth fod anghenion gofal iechyd yn cael eu diwallu drwy gynnwys gweithwyr proffesiynol. Roedd gohebiaeth ac atgyfeiriadau priodol ac amserol yn cael eu hanfon at weithwyr iechyd proffesiynol pan fo'n ofynnol. Gwelsom fod camau priodol yn cael eu cymryd a'u cofnodi gan y staff gofal yn y cynlluniau personol. Gwelsom aelodau o'r staff gofal yn trafod anghenion gofal ac yn atgoffa'r bobl o apwyntiadau â gweithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys meddyg teulu, ffisiotherapydd, deintydd a chiropodydd. Nodwyd gennym fod y staff gofal yn diweddarau'r cofnodion gofal ar ôl adolygu anghenion gofal, roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg. Mae'r cofnodion gwybodaeth am gyngor, gohebiaeth ac apwyntiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol neu weithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn drefnus, yn glir ac ar gael yn hawdd i'r staff gofal eu gweld.

Mae prosesau rheoli meddyginiaeth ar waith, ond mae angen eu gwella. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant meddyginiaeth ac mae tystiolaeth ar gael o hyfforddiant a chymwyseddau'r staff gofal yn y maes hwn. Dywedodd y staff gofal sy'n rhoi meddyginiaeth wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus yn gwneud hynny. Gwnaethom edrych ar y cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) a gwelsom eu bod yn gywir ac yn cael eu harchwilio gan y rheolwyr. Roedd yr ystafell feddyginiaeth yn ddiogel ac yn drefnus. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o wiriadau ar gyfer tymheredd yr oergell. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a esboniodd ei fod yn bwriadu prynu oergell newydd ac y byddai'r trefniadau ar gyfer monitro tymheredd yr oergell yn cael eu rhoi ar waith bryd hynny. Er i ni weld tystiolaeth fod y broses o roi meddyginiaeth yn cael ei gwirio, ni welsom fod y broses gyffredinol ar gyfer meddyginiaethau yn cael ei monitro gan fferyllfa allanol. Ni welsom dystiolaeth fod y broses hon yn cael ei goruchwyllo gan yr unigolyn cyfrifol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Yr Amgylchedd

Mae darparwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu i unigolion mewn lleoliad ac amgylchedd â chyfleusterau a chyfarpar, lle y bo hynny'n berthnasol, sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom fod cyfarpar arbenigol yn cael ei wirio pan fo'n ofynnol. Mae'r ardaloedd cymunedol yn addas ac yn gartrefol; mae'r ystafelloedd eistedd yn gyfforddus ac yn gynnes ac mae'r ystafelloedd ymolchi yn lân ac yn cynnwys adnoddau digonol. Mae'r amgylchedd yn daclus tu hwnt, wedi'i addurno mewn ffordd chwaethus ac yn lân. Mae seddau cyfforddus ar gael yn yr ardaloedd cymunedol ac yn ystafelloedd gwely'r bobl, sy'n cynnwys eiddo a dodrefn personol y bobl hefyd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon iawn ar eu hystafelloedd a'r gwasanaeth.

Mae systemau ar waith i fonitro'r gwaith o gynnal a chadw'r amgylchedd. Mae atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw arall yn cael eu nodi. Rhoddir gwybod am unrhyw atgyweiriadau a gwaith o'r fath sydd eu hangen. Fodd bynnag, nododd y rheolwyr a'r staff gofal fod cryn dipyn o oedi cyn y caiff unrhyw gamau eu cymryd mewn perthynas â thasgau cynnal a chadw. Gwelsom ddrws tân nad oedd yn aros ar gau. Tynnodd aelodau o'r staff sylw at y broblem hon fel problem yr oedd angen ei datrys ym mis Medi 2022. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng unigol ar gael, o fewn cyrraedd ac wedi'u cofnodi'n glir gan ystyried anghenion unigol. Gwelsom arwyddion yn y cyntedd a oedd yn rhoi canllawiau ar sut i gael gafael ar y Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant Diogelwch Tân, Iechyd a Diogelwch a Chymorth Cyntaf. Mae polisi rheoli heintiau cyfredol ar gael i'r staff gofal.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar waith er mwyn helpu i weithredu'r gwasanaeth, i wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir, ond mae angen ei ddiweddarau. Gwelsom dystiolaeth fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth fel sy'n ofynnol. Gwelsom adroddiad yr Unigolyn Cyfrifol. Roedd yn ymddangos yn gyffredinol, ond mae'n cynnwys ac yn nodi meysydd i'w gwella. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a hyrwyddo arferion da. Gwelsom dystiolaeth fod camau yn cael eu cymryd i nodi a hyrwyddo gwelliannau parhaus. Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gael i'r staff gofal a'r rheolwyr. Mae trefniadau ar waith i'r rheolwyr adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn. Mae'r rheolwyr yn gofyn am safbwyntiau'r unigolion mewn perthynas â'u bodlonrwydd â'r gwasanaeth a ddarperir drwy gyfathrebu un-i-un dyddiol. Gwelsom drafodaethau o'r fath yn mynd rhagddynt yn ystod ein hymweliad.

Dyweddodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr a'u bod yn teimlo'n hyderus ac yn cael anogaeth yn eu rolau. Gwnaethom arsylwi ar gyfarfod â gweithiwr allweddol; roedd agwedd y rheolwr yn glir, yn gynhwysol ac yn agos atoch. Gwelsom feysydd allweddol yn cael eu nodi a'u trafod er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Roedd ffeiliau'r staff gofal yn dangos fod y staff gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel, a'u bod yn cael cymorth a hyfforddiant amserol a pharhaus. Mae'r lefelau staffio yn ddigonol, ac mae'r rotas yn dangos bod y lefelau yn sefydlog.

Ceir cyllideb ar gyfer y cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym "*There is nothing too much to ask of the RI, whatever we ask for, we get*". Gall y rheolwr wneud penderfyniadau ynghylch ble y gellid gwneud buddsoddiadau pellach.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
57	Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr holl dasgau cynnal a chadw a nodir yn cael eu cwblhau mewn ffordd amserol er mwyn lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl.	Newydd
58	Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff canllawiau arfer gorau cyfredol eu dilyn ar gyfer monitro tymereddau storio meddyginiaeth ac y caiff prosesau meddyginiaeth yn y gwasanaeth eu harchwilio'n ddigonol.	Newydd

Dyddiad Cyhoeddi 16/03/2023

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
57	Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr holl dasgau cynnal a chadw a nodir yn cael eu cwblhau mewn ffordd amserol er mwyn lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl.	Newydd
58	Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff canllawiau arfer gorau cyfredol eu dilyn ar gyfer monitro tymereddau storio meddyginiaeth ac y caiff prosesau meddyginiaeth yn y gwasanaeth eu harchwilio'n ddigonol.	Newydd

Dyddiad Cyhoeddi 16/03/2023